

Cyfarfod Partneriaeth Natur Leol Ceredigion



Cofnodion

Dyddiad:	21/07/26
Lleoliad:	Neuadd Goffa Tregaron –Teams Hybrid

Yn bresennol

Eryl Evans (Cadeirydd)	EE	Cynghorydd Sir Llangybi, Cyngor Sir Ceredigion
Gillian Clark (Cofnodion)	GC	Cydlynnydd, Partneriaeth Natur Ceredigion
Fiona Moran (Ar-lein)	FM	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Jake Rayson	JR	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Chris Harris	CH	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Norman Birch	NB	Swyddog Coed a Chloddiau Cyngor Sir Ceredigion
Alex Muir	AM	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Alicia Leow-Dyke	ALD	Prosiect Afancod Cymru
Alison Heal	AH	Cyn Uwch Ecolegydd, Cyngor Sir Ceredigion
Angie Polkey	AP	Purposeful Permaculture
Bob Jacques (Ar-lein)	BJ	Pencoed Top
Carys May	CM	Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru
Chris Worker (Ar-lein)	CW	Swyddog Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru wedi ymddeol
Claire Hannington	CHa	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Mara Morris	MM	Swyddog Prosiect Hafanau Heddwch
Paul Taylor	PT	Cofnodydd y Sir, Butterfly Conservation
Rebecca Wright (Ar-lein)	BW	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rosie Hemsley	RH	Grŵp Moch Daear Ceredigion

Sian Jones	SJ	Cyfieithydd
Tim Strang	TS	Ffermwr, Bwlchllan

1	Ymddiheuriadau: Jo Swannell, Liza Zanoni
---	---

2	Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi
3	Dim materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol. Dim cofnodion wedi'u cynhyrchu yn y cyfarfod diwethaf.

4	Cyflwyniadau gan fynychwyr
---	-----------------------------------

5	Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol
	Neuadd Goffa Caerwedros – Dydd Mawrth 20 ^{fed} Hydref

4	Diweddariad Cydlynwyr
	Dywedodd GC fod Gŵyl Natur Ceredigion wedi bod yn llwyddiant er gwaethaf cau ffyrdd, tywydd poeth a nifer o achosion o ganslo'n hwyr gan arddangoswyr. Roedd y digwyddiad wedi tyfu'n fwy na'r lleoliad presennol ac mae symud i Aberaeron yn cael ei ystyried ar gyfer y flwyddyn nesaf. Efallai y bydd cynllun blaendal ad-daladwy ar gyfer arddangoswyr yn cael ei gyflwyno i leihau achosion o ganslo'n hwyr. Roedd GC eisiau i bobl fod yn onest am ganslo'n hwyr i gynorthwyo gyda lliniaru mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Mae caffael ar gyfer gwaith seilwaith bywyd gwyllt gan gynnwys pyllau, tyrau gwenoliaid duon a nodweddion bywyd gwyllt eraill bellach yn mynd rhagddo.
Camau gweith redu	

5	Diweddariadau gan Aelodau a Thrafodaeth
---	--

5.1	Soniodd PT am dymor eithriadol o brysur o ran ieir bach yr haf gyda nifer fawr o gofnodion ledled Ceredigion. Mae'r 'Big Butterfly Count' Bellach yn mynd rhagddo, ac roedd taflenni gwybodaeth ar gael i aelodau. Mae Brithribin Gwyn yn parhau i gynhyrchu cofnodion calonogol o leoliadau newydd, ynghyd â niferoedd da o Frithribin Porffor. Bu mewnlifiad nodedig o leir Bach Tramor eleni ynghyd â niferoedd uchel o leir Bach Melyn, yn
5.2	enwedig yng ngogledd Ceredigion. Mae monitro Brith y Gors hefyd wedi bod yn gadarnhaol, gan gynnwys safle preifat newydd ei gyrchu lle canfuwyd poblogaethau health. Yn dilyn trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, bydd arolygon gwe larfaol yn dechrau yn gynt na'r arfer eleni oherwydd bod y datblygiad yn fwy datblygedig. Mae croeso i wirfoddolwyr gynorthwyo gyda gwaith arolygu. Dywedodd Paul hefyd fod Butterfly Conservation Wales yn parhau i brofi anawsterau recriwtio.
5.3	Dywedodd CH fod cytundeb rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru newydd bellach ar waith yng Nghoed y Bont sy'n cwmpasu rheoli cynefinoedd, gwaith gwirfoddol a gweithgareddau addysg. Mae partïon gwaith gwirfoddol misol yn parhau ochr yn ochr â digwyddiadau gwirfoddol blyneddol. Mae'r sefydliad yn ymchwilio i godi arian ychwanegol trwy ei Glwb 100 wrth i gostau yswiriant a chostau rhedeg barhau i godi. Mae'r gwaith gyda'r Red Squirrel Partnership hefyd yn parhau ac mae rhagor o gyfleoedd ariannu yn cael eu harchwilio.
5.4	Rhoddodd CHa ddiweddariad ar strategaeth ddeng mlynedd newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan esbonio, yn dilyn ailstrwythur sefydliadol sylweddol, bod yr Ymddiriedolaeth bellach yn canolbwyntio ei gwaith o amgylch tair thema allweddol: Ysbrydoli, Adfer Natur, a Mynediad. Mae'r cyfrifoldeb am fonitro ac ymgysylltu â rhywogaethau wedi'i ymgorffori i raddau helaeth yn y rhaglen Mynediad.
5.5	Er bod adfer cynefinoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae llawer mwy o bwyslais bellach ar sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i natur a'i phrofi. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi i ymgysylltu â phobl ifanc a'r rheini sydd ag incwm cyfyngedig, gan gydnabod effaith y costau byw presennol. Bydd gweithio mewn partneriaeth yn dod yn fwy o ffocws dros y blynedd-oedd nesaf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu gweithio'n agosach gyda sefydliadau a chymunedau lleol ac mae'n datblygu prosiectau fel rhandir-
5.6	oedd cymunedol a mentrau eraill sy'n annog cyfranogiad lleol mewn cadwraeth natur. Bydd Alex, garddwr yr Ymddiriedolaeth, hefyd yn cefnogi'r gwaith hwn. Byddant yn archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau lleol, gan gynnwys Clwb Pysgota Aberaeron, i ddatblygu dulliau partneriaeth o reoli afonydd. Mae trafodaeth am y Clwb yn cymryd cyfrifoldeb am roi trwyddedau pysgota ar ran o'r afon yn gyfnewid am gynorthwyo gyda rheoli cynefinoedd ac ymgysylltu â phobl ifanc lleol mewn gweithgareddau cadwraeth. Dywedodd CHa hefyd fod y prosiect llwyddiannus Blodau ac Ieir Bach yr Haf wedi dod i ben ym mis Mawrth. Er bod cyllid penodedig bellach wedi dod i ben, mae ymdrechion yn parhau i gynnal yr ymgysylltiad cymunedol a

	sefydlwyd drwy'r prosiect trwy adeiladu ar bartneriaethau presennol a gwneud mwy o ddefnydd o wirfoddolwyr.
5.7	Maen nhw'n adolygu sut mae pobl yn defnyddio eu safleoedd a'u gwasan-aethau. Gofynnir am adborth gan ymwelwyr i ddeall yn well beth mae pobl ei eisiau o'u hymweliadau a sut y gellir rheoli safleoedd i wella hygyrchedd a phrofiad ymwelwyr.
5.8	Cynhaliwyd trafodaeth bellach ar ddull partneriaeth arfaethedig yr Ymddiriedolaeth Natur o reoli afonydd. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad yng-hylch lleoliad y rhan o'r afon y cyfeiriwyd ati a sut y byddai trefniadau arfaethedig o ran trwyddedau pysgota yn gweithredu. Esboniwyd, er y byddai hawliau pysgota yn parhau i fod yn eu lle, mae'r broses drwyddedu bellach yn cael ei rheoli ar-lein i raddau helaeth, gan ei gwneud hi'n haws i bysgotwyr gael y trwyddedau angenrheidiol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ystyried y defnydd o godau QR yn y dyfodol i wella ymgysylltiad ymwelwyr a
5.9	chasglu adborth ar sut mae safleoedd yn cael eu defnyddio a'r hyn yr hoffai ymwelwyr ei weld. Trafododd y mynychwyr gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn ehangach o fewn dalgylch y Teifi, gan gynnwys cysylltiadau â menter Dalgylch Afon Teifi. Cydnabuwyd bod yr Ymddiriedolaeth Natur yn rheoli tir yn y dalgylch uchaf, gan gynnwys cynefinoedd mawndir a chorsydd, a gallai chwarae rhan bwysig wrth gefnogi adfer dalgylch ar raddfa tirwedd. Cadarnhaodd CHa y byddai'r Ymddiriedolaeth yn croesawu cyfleoedd i weithio ar y cyd â sefydliadau eraill a rhanddeiliaid lleol.
6.0	Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar yr heriau o reoli Jac y Neidiwr. Cydnabuwyd nad oes modd ei ddiwreiddio'n llwyr ar hyn o bryd oherwydd maint y pla ledled dalgylch yr afon. Yn hytrach, mae'r Ymddiriedolaeth yn blaenoriaethu lleoliadau allweddol lle gall ymdrechion rheoli gael yr effaith fwyaf, gyda phwyslais penodol ar atal y planhigyn rhag lledaenu i gynefinoedd coetir. Clywodd yr Aelodau fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda chymunedau lleol a thirfeddianwyr cyfagos i fynd i'r afael â'r broblem yn raddol trwy gydlyn ymdrechion rheoli ymhellach i fyny'r afon.
6.1	Roedd yr Aelodau yn cydnabod y bydd rheoli rhywogaethau goresgynnol yn effeithiol yn gofyn am ddull cydweithredol hirdymor o weithredu sy'n cynnwys nifer o dirfeddianwyr a sefydliadau ar draws y dalgylch. Anogodd CHa aelodau i gyflwyno cofnodion o rywogaethau goresgynnol drwy LERC Cymru neu Aderyn, gan esbonio bod cofnodi digwyddiadau yn helpu i fonitro dosbarthiad a lledaeniad rhywogaethau goresgynnol ac yn cefnogi penderfyniadau rheoli yn y dyfodol.
6.2	Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag arolygon bywyd gwyllt, dywedwyd wrth fynychwyr bod y rhan fwyaf o arolygon yn cael eu cynnal yn ystod misoedd y gaeaf, pan fydd llai o frigdwf yn gwella gwelededd ac amodau'r arolwg. Mae gwaith arolygu pellach wedi'i gynllunio yn ystod y gaeaf nesaf. Ymddiheurodd RH i'r aelodau am beidio â mynd ar drywydd awgrymiadau a wnaed ar ôl y cyfarfod blaenorol ynghylch hyrwyddo'r Bartneriaeth a gwella cofnodi brochfeydd moch daear ar draws y sir. Dywedwyd wrth y mynychwyr y byddai'r trafodaethau hyn yn cael eu hailystyried unwaith y byddai ymrwymadau gwaith cyfredol yn caniatáu hynny.
	Yn ystod y drafodaeth, ystyriodd aelodau ymddygiad moch daear yn dilyn arsylwi ar foch daear a welwyd yn ystod oriau golau dydd. Nodwyd, er bod

6.3	moch daear yn gyffredinol yn nosol, nad yw gweithgarwch yn ystod y dydd yn anghyffredin a gall ddigwydd am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys mwy o weithgarwch fforio. Trafododd mynychwyr bwysigrwydd ecolegol moch daear, gan dynnu sylw at eu rôl mewn gwasgaru hadau trwy eu symudiad ar draws y dirwedd. Cydnabuwyd y gall moch daear, ochr yn ochr â'u swyddogaethau ecolegol adnabyddus, gyfrannu at ledaeniad naturiol rhywogaethau planhigion. Mynegwyd pryder am y sefyllfa bresennol ar gyfer moch daear yng Nghymru. Anogwyd yr aelodau i gefnogi deisebau ac ymgyrchoedd sy'n ymwneud â chadwraeth moch daear lle bo'n briodol. Cyfeiriodd EE hefyd at adroddiadau diweddar o weithgarwch moch daear mewn ardal breswyl, lle roedd pryderon wedi'u codi ar ôl i foch daear fynd i mewn i erddi. Dilynodd trafodaeth ynglŷn â'r ymateb priodol i ddigwyddiadau o'r fath a'r amddiffyniadau cyfreithiol a roddir i foch daear. Nodwyd, lle mae angen ymchwiliadau i glefydau, bod rhaid dilyn gweithdrefnau milfeddygol a phrotocolau profi priodol. Daeth y drafodaeth i ben gyda chytundeb cyffredinol bod ymwybyddiaeth barhaus y cyhoedd, cofnodi rhywogaethau'n gywir a gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn bwysig wrth gefnogi cadwraeth moch daear ac amcanion ehangach o ran bioamrywiaeth.
6.4	Rhoddodd TS y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect adfer bioamrywiaeth a ffermio cydweithredol y mae ef a thirfeddiannwr cyfagos wedi bod yn ei ddatblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gyda'i gilydd, mae'r bartneriaeth yn rheoli tua 300 erw ac yn archwilio sut y gellir cyfuno ffermio cynhyrchiol ag adferiad bioamrywiaeth ar raddfa fawr. Mae'r prosiect wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Rewilding Britain i gynnal asesiad sylfaenol ecolegol cynhwysfawr. Bydd y gwaith hwn yn galluogi monitro cyflwr cynefinoedd ac enillion bioamrywiaeth yn y dyfodol wrth fod yn sail i benderfyniadau'r dyfodol o ran rheoli tir. Mae amrywiaeth o arolygon ecolegol arbenigol eisoes wedi'u cwblhau. Mae arolygon adaregol, a gynhaliwyd dros chwe ymweliad yn ystod y tymor bridio, wedi cofnodi tua 38 o rywogaethau adar, gan gynnwys nythu llwyddiannus y Barcud Coch o fewn ardal y prosiect. Mae arolygon botanegol hefyd wedi nodi tua 190 o rywogaethau o blanhigion fasgwlaidd ar ddaliad TS a thros 200 o rywogaethau ar y fferm gyfagos.
6.5	Er mwyn rhoi cofnod hirdymor o newid amgylcheddol, comisiynwyd ffotograffiaeth o'r awyr, lluniau drôn a ffilmio i sefydlu llinell sylfaen weledol. Bydd yr arolygon hyn yn cael eu hailadrodd o bryd i'w gilydd i fonitro newidiadau sy'n deillio o ymyriadau rheoli yn y dyfodol. Mae'r prosiect wedi ymrwymo i ddangos y gall adferiad bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd cynaliadwy gydweithio. Yn wahanol i rai mentrau dad-ddofi tir, nid oes dim bwriad i roi'r gorau i weithgareddau ffermio; yn hytrach, y nod yw integreiddio ffermio ag adfer cynefinoedd a natur yn uchelgeisiol. Ar gais y prosiect, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad ecohydrolegol manwl o'r mawndir a'r SoDdGA o fewn y safle. Mae'r prosiect yn cynnwys oddeutu 20 erw o SoDdGA ynghyd â SoDdGA cyfagos mwy sy'n ymestyn ar draws tir cyfagos. Mae'r mawndir yn rhan bwysig o'r dalgylch uchaf, gyda dŵr yn llifo i lednentydd Afon Aeron, ac mae'r asesiad

	hydrolegol wedi nodi cyfleoedd ar gyfer adfer symudiad naturiol y dŵr a gwella cyflwr mawndir. Dywedodd TS fod nifer o ffermwyr a thyddynwyr cyfagos wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan, gyda'r bwriad o ddatblygu clwstwr anffurfiol ar raddfa tirwedd i ystyried rheoli cynefinoedd a dŵr ar y cyd ar draws y dalgylch ehangach. Mae trafodaethau eisoes wedi dechrau gydag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru ynghylch cyfleoedd ar gyfer rheoli dalgylchoedd yn integredig. Mae dwy daith gerdded fferm wedi'u cynllunio ar gyfer mis Awst i ddangos y gwaith sy'n cael ei wneud ac annog cyfranogiad ehangach. Bydd un ymweliad yn canolbwyntio ar reoli glaswelltir corsiog a chynefinoedd sy'n cael eu dominyddu gan Molinia, tra hefyd yn trafod yr heriau hydrolegol sy'n gysylltiedig ag adfer mawndir diraddiedig. Tynnodd yr asesiad eco-hydrolegol sylw at addasiad hanesyddol y mawndir trwy echdynnu a draenio mawn, gan arwain at newidiadau sylweddol i lefelau dŵr ar draws y safle. Clywodd mynychwyr fod y dyddodion mawn yn parhau i fod yn eithriadol o ddwfn mewn mannau ac y gall ymyriadau hydrolegol cymharol gymedrol gynnig cyfleoedd i wella swyddogaeth mawndir. Fodd bynnag, byddai unrhyw waith adfer yn y dyfodol yn gofyn am gefnogaeth a chydweithrediad tiffeddianwyr cyfagos. Dywedodd TS hefyd fod y bartneriaeth wedi cynhyrchu ei chylchlythyr prosiect cyntaf ac wedi sefydlu grŵp WhatsApp i wella cyfathrebu â rhanddeiliaid lleol. Mae arolygon sylfaenol ychwanegol yn cael eu trefnu, gan gynnwys arolygon ystlumod ac ieir bach yr haf, ynghyd ag arolwg hydrolegol cynhwysfawr o'r safle ehangach sy'n cwmpasu nentydd, pyllau a chyrff dŵr eraill. Croesawodd yr Aelodau y prosiect a'i gydnabod fel enghraifft ardderchog o gadwraeth gydweithredol, ar raddfa tirwedd sy'n cydbwyso cynhyrchu amaethyddol ag adferiad natur. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch adfer mawndir, cadarnhaodd TS fod adfer y mawndir yn amcan hirdymor allweddol, er y bydd unrhyw ymyriadau sylweddol yn dibynnu ar ymgysylltu pellach â thirfeddianwyr cyfagos a chytundeb ar draws y dalgylch ehangach. Anogwyd mynychwyr i fynychu'r teithiau cerdded fferm sydd i ddod i ddysgu mwy am y prosiect. Rhoddodd CM ddiweddariad ar y digwyddiadau Gwyllo Gwylt sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r prosiect Eich Darn Gwylt. Ers y cyfarfod blaenorol ym mis Ebrill, cynhaliwyd 11 o ddigwyddiadau Gwyllo Gwylt, gan ddenu cyfanswm o 55 o gyfranogwyr, gyda sawl mynychwr yn dychwelyd ar gyfer sesiynau ychwanegol. Bydd cam nesaf y prosiect yn annog cyfranogwyr i fabwysiadu eu hardal cofnodi bywyd gwylt lleol eu hunain. Bydd cyfranogwyr yn cael mapiau o'u hardal dewisol ynghyd â gwybodaeth am rywogaethau sydd wedi'u cofnodi yno o'r blaen. Yna bydd diweddariadau blynyddol yn cael eu rhoi i ddangos sut mae eu cofnodion yn cyfrannu at well dealltwriaeth o fioamrywiaeth ledled Ceredigion ac i dynnu sylw at werth cofnodi biolegol lleol. Bu'n rhaid gohirio un digwyddiad a gynlluniwyd oherwydd y tywydd eithriadol o boeth ond ers hynny mae wedi cael ei aildrefnu. Diolchodd CM i bawb a fu'n rhan o drefnu Gŵyl Natur Ceredigion, gan ddweud ei bod wedi bod yn ddigwyddiad ardderchog. Cofrestrodd tua 10 o
--	--

	danysgrifwyr newydd i gylchlythyr y Ganolfan yn ystod yr ŵyl, ac ymwelodd llawer o aelodau ychwanegol o'r cyhoedd â'r stondin i drafod cofnodi bywyd gwyllt lleol a gwaith y Ganolfan. Croesawodd yr Aelodau'r ymgysylltiad cyhoeddus cadarnhaol a gyflawnwyd drwy'r digwyddiad. Dywedodd AH ei bod yn berchen ar ardal o goetir hynafol ac wedi bod yn ymgymryd â gwaith rheoli, gan gynnwys gwaith yn ymwneud â choed Llarwydd. Dywedodd hefyd ei bod yn aelod o Wenynwyr Cymru Ceredigion, a oedd â stondin yng Ngŵyl Natur Ceredigion i hyrwyddo gwenyna a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Trosglwyddodd AH ymddiheuriadau gan Rachel Auckland, nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod, a gwnaeth chyfleu diolch Rachel i bawb a oedd yn rhan o drefnu'r ŵyl. Mewn ymateb i gwestiwn am adnabod Cacwn Melyngoes, dywedodd AH fod eu coesau melyn nodweddiadol yn un o'r nodweddion allweddol sy'n eu hadnabod. Eglurodd y gall un Gacynen Felyngoes ddinistrio cwch gwenyn mêl cyfan a phwysleisiodd bwysigrwydd rhoi gwybod os ydych yn amau eich bod wedi'u gweld. Hysbyswyd yr aelodau bod llinell gymorth ffôn benodol a chod QR ar gael i alluogi aelodau'r cyhoedd i ofyn am gyngor ynghylch y camau nesaf priodol. Dywedodd AH hefyd fod nyth Cacwn Melyngoes wedi'i darganfod yn Wrecsam a'i bod wedi cael ei dinistrio wedyn. Roedd CW yn cael trafferth gydag ansawdd sain ar-lein ond nid oedd ganddo ddiweddariad i'w roi. Rhoddodd BJ y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith adfer coetir sy'n cael ei wneud ar ei safle drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetir. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar adfer hen blanhigfa sbriwsen Sitka i dirwedd fwy amrywiol a gwydn trwy greu mosäig o goetir brodorol, llennyrch agored a chynefinoedd rhostir. Esboniodd BJ fod contractwyr i fod i ddechrau gwaith yn ystod mis Awst i gael gwared ar sbriwsen Sikca sy'n aildyfu o'r ardaloedd a nodwyd i'w hadfer. Y nod hirdymor yw gwella ansawdd cynefinoedd, cynyddu amrywiaeth strwythurol a gwella gwerth y safle ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt. Fel rhan o'r prosiect, mae twll turio yn cael ei osod i roi cyflenwad dŵr dibynadwy ar gyfer pori er lles cadwraeth. Bydd anifeiliaid pori yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal cynefinoedd agored, rheoli aildyfiant prysgwydd ac atal yr ardaloedd a adferwyd rhag dychwelyd i goetir trwchus. Mae arolygon ecolegol sylfaenol eisoes wedi dangos gwerth bioamrywiaeth y safle, gan gofnodi ystod eang o rywogaethau a rhoi tystiolaeth y bydd gwaith adfer yn adeiladu ar adnodd ecolegol sydd eisoes yn bwysig. Bydd y prosiect yn parhau i fonitro newidiadau dros amser i asesu manteision y rhaglen rheoli cynefinoedd. Dywedodd BJ fod trafodaethau'n parhau gyda thirfeddianwyr cyfagos i archwilio cyfleoedd ar gyfer ymestyn adfer cynefinoedd y tu hwnt i ffin y prosiect a chreu mwy o gysylltedd tirwedd. Bwriad y prosiect yw nid yn unig adfer coetir ar un safle ond hefyd cyfrannu at adferiad natur ehangach ar draws y dirwedd gyfagos trwy gydweithio.
--	---

	Croesawodd y mynychwyr y diweddariad a nodasant y potensial i'r prosiect ategu mentrau cadwraeth eraill ar raddfa tirwedd sy'n cael eu cynnal ledled Ceredigion. Tynnodd CW sylw hefyd at bwysigrwydd cadw cynefin conwydd addas a chynnal cysylltedd coetir i gefnogi cadwraeth Gwiwerod Goch yn y dyfodol. Rhoddodd BW ddiweddariad ar ran CF nad oedd yn gallu mynychu dechrau'r cyfarfod. Dywedodd fod Tîm Amgylchedd Ceredigion wedi bod yn paratoi Cynlluniau Rheoli Safle Dynodedig i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dywedodd BW hefyd fod hysbysiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) newydd, sy'n cwmpasu glaswelltir niwtral sy'n gyfoethog ei rywogaethau, glaswelltir asidig a glaswelltir corsiog tua phum cilomedr i'r gogledd-ddwyrain o Lanbedr Pont Steffan, yn mynd rhagddo drwy'r broses gadarnhau ar hyn o bryd. Cadarnhaodd BW fod swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i weithio gyda PT ar gadwraeth Brith y Gors, gan gynnwys trafodaethau yn ymwneud â gwaith arolygu a rheoli cynefinoedd. Cafodd yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am y bartneriaeth Teifi Fyw – Pobl a Natur Gyda'n Gilydd sydd newydd ei lansio, sydd wedi sicrhau dros £1.4 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer cyfnod datblygu cychwynnol dwy flynedd. Mae'r prosiect yn cael ei gydlyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru, yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio, Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur, Mentera, Cyngor Sir Ceredigion, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru. Esboniodd BW y bydd y prosiect yn cyfuno tystiolaeth wyddonol â hanes lleol, profiad bywyd ac ymgysylltiad creadigol i gefnogi adfer ar raddfa tirwedd wrth sicrhau bod pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y dalgylch yn chwarae rhan ganolog wrth lunio gwaith yn y dyfodol. Dywedodd BW fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ddatblygu ei ddull strategol o adfer natur drwy ei amcan llesiant corfforaethol, Byd Natur wrthi'n Gwella. Mae'r gwaith presennol yn cynnwys cryfhau rhwydweithiau ecolegol gwydn, cyflymu'r rhaglen o hysbysiadau SoDdGA a chyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelu a rheoli 30% o'r tir a'r môr yn effeithiol erbyn 2030 yn unol â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Clywodd yr Aelodau hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu strategaeth fonitro daearol wedi'i hadnewyddu i wella dealltwriaeth o gyflwr safleoedd gwarchodedig ac i asesu cynnydd tuag at adfer safleoedd i statws cadwraeth ffafriol. Yn lleol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau gweithio gyda'r elusen Plantlife ar brosiect glaswelltir newydd yn ardal Tregaron. Mae'r prosiect ar hyn o bryd yn ei gamau cynnar a bydd yn canolbwyntio ar weithio gyda ffermwyr i wella cyflwr ecolegol a gwytnwch cynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth. Tynnodd BW sylw hefyd at gyfleoedd hyfforddi Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Llifogydd Cymunedol sydd ar ddod ar gyfer grwpiau cymunedol a thrigolion sydd â diddordeb mewn paratoi ar gyfer llifogydd, gan ddweud y byddai rhagor o fanylion yn cael eu cylchredeg. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd fod Rownd 6 y Gronfa Rhwydweithiau Natur bellach ar agor ar gyfer ceisiadau ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr gwerth dros £250,000.
--	--

	Cadarnhaodd BW y byddai manylion cyfleoedd ariannu yn y dyfodol yn parhau i gael eu rhannu drwy gylchlythyr y Bartneriaeth lle bo hynny'n briodol. Gofynnodd mynychwr a fyddai'r prosiect Teifi Fyw – Pobl a Natur Gyda'n Gilydd yn cynnwys cadwraeth adeiladau hanesyddol a nodweddion treftadaeth sy'n gysylltiedig â choridor yr afon, neu a oedd ei brif ffocws ar adfer afonydd. Esboniodd BW, er nad oedd hi'n rhan uniongyrchol o gyflawni'r prosiect, fod y wybodaeth sydd ar gael yn dangos mai ei brif amcanion yw ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a dirywiad mewn iechyd afonydd trwy adfer ar raddfa dalgylch a thrwy ailgysylltu pobl â natur. Nododd, fodd bynnag, fod y prosiect hefyd yn cynnwys elfen dreftadaeth ac addawodd rannu mwy o wybodaeth gyda'r aelodau.

EGWYL

7	DIWEDDARIADAU STAFF
7.0	Cyflwynodd NB ei hun ac esboniodd ei fod wedi ymgymryd â rôl Swyddog Coed a Chloddiau yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar. Amlinellodd ei gyfrifoldebau statudol, sy'n cynnwys gweinyddu a gorfodi Gorchmynion Diogelu Coed, diogelu coed o fewn Ardaloedd Cadwraeth a gorfodi Rheoliadau y Cloddiau. Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, dywedodd NB ei fod yn arwain y gwaith o sefydlu Rhwydwaith Wardeiniaid Coed Ceredigion newydd mewn partneriaeth â'r 'Tree Council'. Nod y fenter yw recriwtio Wardeiniaid Coed gwirfoddol o gymunedau ledled y sir i hyrwyddo coed, annog cyfranogiad cymunedol a chefnogi prosiectau lleol sy'n gysylltiedig â choed. Bydd cam cychwynnol y prosiect yn cynnwys gwahodd Cynghorau Cymuned i enwebu cynrychiolwyr, er y bydd aelodaeth hefyd ar agor i unigolion sydd â diddordeb.
7.1	Eglurodd NB y bydd 'The Tree Council' yn rhoi hyfforddiant, cyngor a chyllid grant i gefnogi prosiectau lleol. Er bod plannu coed yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar y fenter, pwysleisiodd fod angen mwy o bwyslais ar gynnal a chadw coed sydd newydd eu plannu yn yr hirdymor, gan fod llawer o gynlluniau plannu yn methu oherwydd diffyg ôl-ofal. Nododd y gallai'r rhwydwaith hefyd gefnogi gweithgareddau addysgol, prosiectau ymgysylltu â'r gymuned ac ystod eang o fentrau cadwraeth lleol. Bydd mwy o wybodaeth am Rwydwaith y Wardeiniaid Coed yn cael ei gylchredeg drwy gylchlythyr y Bartneriaeth.
7.2	Eglurodd NB fod ei rôl o fewn y Bartneriaeth Natur Leol ar wahân i'w gyfrifoldebau cynllunio statudol. Esboniodd fod cloddiau wedi cael eu gwarchod o dan Reoliadau'r Cloddiau ers 1997 a bod angen hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cael gwared ar gloddiau gwarchodedig. Ei brif

7.3	rôl statudol o hyd yw diogelu a rheoli coed a chloddiau trwy ddeddfwriaeth gynllunio. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd mynychwyr eu bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion i nodi coed llwyfen aeddfed a allai fod yn haeddu eu gwarchod. Cadarnhaodd NB ei fod eisoes wedi bod mewn cysylltiad â phobl ynglŷn â chofnodion llwyfen posibl a chroesawodd y cynnig o wybodaeth ychwanegol. Gofynnodd am i fanylion am goed llwyfen hynafol posibl gael eu hanfon ymlaen ato ar ffurf taenlen i gynorthwyo gydag asesiadau yn y dyfodol. Esboniodd NB fod Gorchmynion Diogelu Coed wedi'u bwriadu'n bennaf i amddiffyn coed sy'n rhoi gwerth amwynder cyhoeddus sylweddol. Er bod gwerth bioamrywiaeth yn ystyriaeth bwysig, y prif faen prawf yw a yw coeden yn weladwy ac yn cyfrannu at y dirwedd gyhoeddus. Nododd ei bod yn annhebygol yn gyffredinol y bydd coed sydd wedi'u lleoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu diogelu gan Orchmynion Diogelu Coed, gan y byddai'r Cyngor yn rheoleiddio ei reolaeth tir ei hun i bob pwrpas. Fodd bynnag, efallai y bydd coed sy'n eiddo preifat ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig at y dirwedd gyhoeddus yn addas i'w dynodi. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurodd NB fod poblogaethau Llwyfen wedi bod mewn dirywiad hirdymor ers dyfodiad Clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd yn ystod y 1960au, gan wneud sbesimenau aeddfed sy'n goroesi yn gynyddol anghyffredin. Pwysleisiodd nad yw Gorchmynion Diogelu Coed wedi'u cyfyngu i rywogaethau penodol a gellir eu cymhwyso i unrhyw goeden sy'n bodloni'r meini prawf cynllunio perthnasol. Anogodd NB aelodau i barhau i gyflwyno ceisiadau am asesu coed ar gyfer Gorchmynion Diogelu Coed, gan esbonio y gall unrhyw unigolyn ofyn i goeden gael ei hystyried i'w gwarchod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu pob cais yn erbyn y meini prawf cynllunio perthnasol. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, ac anogwyd aelodau i gysylltu â NB yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau yn y dyfodol neu gofnodion coed posibl. Rhoddodd CH sy'n gyfrifol am Warchodfeydd Natur Lleol y Cyngor ddiweddariad ar weithgareddau rheoli ar draws nifer o warchodfeydd yng Ngheredigion. Mae sesiynau gwirfoddoli rheolaidd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gynnal a chadw'r safleoedd, gan gynnwys rheoli cynefinoedd, rheoli rhywogaethau goresgynnol a gwaith cadwraeth ymarferol. Tynnwyd sylw at broblemau parhaus gyda thipio anghyfreithlon, sbwriel a gwersylla anawdurdodedig, gyda gwaith clirio rheolaidd yn parhau lle bo angen. Dywedodd CH fod gwaith gwirfoddol wedi'i wneud ym Mryn y Môr a Pharc Natur Penglais gyda chymorth gan Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth. Mae'r gwaith wedi cynnwys clirio prysgwydd, cynnal a chadw llwybrau a rheoli cynefinoedd, gyda diwrnodau gwirfoddoli pellach wedi'u cynllunio ar gyfer yr hydref a'r gaeaf. Mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn parhau i fod yn her rheoli sylweddol ar draws sawl gwarchodfa. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud i reoli Llusen yr Eira, Rhododendron a Chlymog Japan trwy gyfuniad o dynnu â llaw a thriniaeth chwynladdwr. Clywodd yr Aelodau y bydd angen
-----	---

	rheolaeth hirdymor dros nifer o flynyddoedd i sicrhau rheolaeth effeithiol. Mae gofal arbennig hefyd yn cael ei gymryd i atal rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu i gynefinoedd sensitif. Mae arolygon moch daear wedi'u cynnal mewn sawl safle gwarchodfa mewn partneriaeth â'r Grŵp Moch Daear Lleol. Er na nodwyd dim brochfeydd byw yn ystod un arolwg, cofnodwyd tystiolaeth o weithgarwch moch daear, gan gyfrannu at well dealltwriaeth o ddosbarthiad rhywogaethau ar draws rhwydwaith y warchodfa. Dywedodd CH fod byrddau dehongli newydd yn cael eu gosod mewn nifer o safleoedd i wella gwybodaeth i ymwelwyr ac annog ymddygiad cyfrifol, gan gynnwys negeseuon sy'n ymwneud â sbwriel, gwersylla a rheoli cŵn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella hygyrchedd a chyfleusterau ymwelwyr mewn sawl gwarchodfa trwy welliannau llwybrau a seilwaith newydd. Ym Mharc Natur Penglais, mae rheoli cynefinoedd wedi parhau ochr yn ochr ag arolygon ar gyfer ieir bach yr haf, moch daear a bywyd gwyllt arall. Clywodd yr aelodau fod y warchodfa yn cefnogi ystod amrywiol o rywogaethau ac y bydd monitro pellach yn parhau. Yng Ngheinydd, mae'r gwaith adfer wedi parhau o fewn hen warchodfa gardd bwthyn, lle mae llystyfiant sydd wedi tyfu'n wyllt wedi'i glirio ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynyddu cyfranogiad y gymuned trwy blannu coed a chreu blodau gwyllt. Mae monitro blychau adar ac ystlumod hefyd wedi cadarnhau bod sawl un bellach yn cael eu defnyddio gan fywyd gwyllt. Daeth CH i ben trwy ddweud bod rheoli'r warchodfa yn parhau i ganolbwyntio ar gydbwysu adfer cynefinoedd, rheoli rhywogaethau goresgynnol, mynediad ymwelwyr ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud yn bosibl trwy gymorth gwirfoddolwyr a sefydliadau partner. Rhoddodd FM y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o brosiectau sy'n cael eu cyflawni drwy Fiosffer Dyfi a rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau rheoli coetir a dalgylchoedd cydweithredol ar gyfer tirfeddianwyr o fewn Aber Afon Dyfi, gan ddod â sefydliadau a thirfeddianwyr preifat ynghyd ar sail wirfoddol i wella rheoli coetiroedd ar draws y dirwedd. Soniodd FM hefyd am gymorth sy'n cael ei roi i waith rheoli maethynnau Cyngor Sir Ceredigion drwy ddatblygu prosiect monitro dŵr gwyddoniaeth dinasyddion. Nod y prosiect yw monitro ansawdd dŵr o fewn afonydd ac, ymhen amser, ymestyn i'r amgylchedd morol. Clywodd yr aelodau fod cryn ddiddordeb cyhoeddus mewn cymryd rhan, gan adlewyrchu pryder cynyddol am ansawdd dŵr afonydd a dŵr arfordirol. Bydd y prosiect hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Natur i archwilio'r defnydd o fonitro DNA amgylcheddol (eDNA) a thechnoleg camerâu tanddwr i wella dealltwriaeth o fioamrywiaeth forol. Mae gwaith pellach wedi cynnwys cefnogi myfyrwyr o Ganolfan y Dechnoleg Amgen i ddatblygu dyluniadau ar gyfer strwythurau sy'n
--	--

	gyfeillgar i fywyd gwyllt yn yr amgylchedd adeiledig. Bwriad y prosiect yw annog penseiri a dylunwyr y dyfodol i ymgorffori nodweddion bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd. Yn ystod trafodaeth, gofynnodd mynychwr a fyddai'r prosiect monitro dŵr yn mabwysiadu dull dalgylch cyfan o weithredu yn hytrach na chanolbwyntio ar ddangosyddion llygredd yn unig. Esboniodd FM, er bod y prosiect presennol o reidrwydd wedi'i gyfyngu gan y cyllid sydd ar gael, yr uchelgais hirdymor yw cyfrannu tuag at ddealltwriaeth ehangach o ddalgylchoedd afonydd trwy gyfuno monitro ansawdd dŵr â data amgylcheddol ehangach. Bydd gwybodaeth a gesglir drwy'r prosiect yn helpu i adeiladu gwell dealltwriaeth o ecosystemau afonydd ac ecosystemau morol a chefnogi penderfyniadau rheoli dalgylchoedd yn y dyfodol. Croesawodd yr Aelodau y diweddariad a mynegasant ddiddordeb mewn clywed canlyniadau'r gwaith monitro wrth i'r prosiect ddatblygu. Rhoddodd JR y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol. Diolchodd i'r holl bartneriaid am eu cyfraniadau parhaus i'r Bartneriaeth, gan dynnu sylw at y dull cydweithredol o weithredu sy'n sail i lawer o'i phrosiectau a chydabod y gwaith sylweddol a wnaed i drefnu cyfarfodydd, cynhyrchu cylchlythyrau, cydlynu digwyddiadau a chefnogi gweithgareddau dyddiol y Bartneriaeth. Soniodd JR am gwblhau Stori Wylt yn llwyddiannus, prosiect celfyddydau a bywyd gwyllt sy'n cynnwys pedair ysgol gynradd ledled Ceredigion. Daeth y prosiect i ben gydag arddangosfa yng Ngŵyl Natur Ceredigion ac fe'i disgrifiwyd fel enghraifft ardderchog o gyfuno addysg amgylcheddol, celfyddydau creadigol ac adnabod rhywogaethau i annog plant i ymgysylltu â natur. Mae'r prosiect wedi cynhyrchu nifer o syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd pellach i ehangu dysgu yn yr awyr agored. Gan ystyried gweithgarwch ehangach y Bartneriaeth, pwysleisiodd y mynychwyr bwysigrwydd cynyddol gwyddoniaeth dinasyddion wrth gefnogi monitro hirdymor a rheoli cynefinoedd. Nodasant fod llawer o sefydliadau a gwirfoddolwyr ledled y sir eisoes yn gwneud gwaith cadwraeth gwerthfawr, ac mai un o rolau allweddol y Bartneriaeth yw cysylltu'r gweithgareddau hyn, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cydweithio. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr fod gwaith yn parhau ar wefan Partneriaeth Natur Leol Ceredigion. Blaenoriaeth allweddol yw datblygu map rhyngweithiol sy'n arddangos prosiectau'r Bartneriaeth, safleoedd pwysig a sefydliadau partner ledled y sir. Bydd hyn yn helpu i godi proffil gwaith cadwraeth lleol, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o brosiectau sy'n digwydd ac annog mwy o gyfranogiad gan gymunedau a gwirfoddolwyr. Amlinellodd JR gynnydd gyda phrosiect ffotograffiaeth pwynt sefydlog cod QR, a fydd yn galluogi ymwelwyr a gwirfoddolwyr i lanlwytho ffotograffau ailadroddus o leoliadau dynodedig. Bydd y prosiect yn cefnogi monitro hirdymor o newid cynefinoedd tra ar yr un pryd yn hyrwyddo gweithgareddau'r Bartneriaeth a rhoi cofnod ffotograffig gwerthfawr ar gyfer y wefan.
--	--

	Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu adnoddau addysgol sy'n cyfuno adnabod rhywogaethau â'r Gymraeg. Gan ddefnyddio ffotograffau ac enwau rhywogaethau wedi'u cyfieithu, mae deunyddiau dysgu digidol yn cael eu creu i helpu ysgolion a grwpiau cymunedol i ddysgu enwau Cymraeg, Saesneg a gwyddonol ochr yn ochr ag adnabod bywyd gwyllt. Dywedodd JR eu bod yn ddiweddar wedi cwblhau blwyddyn gyntaf gradd Meistr rhan-amser mewn Cynllunio Cynaliadwy a Pholisi Amgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd a'u bod bellach yn dechrau gweithio ar draethawd hir. Nodasant eu bod yn bwriadu datblygu ymchwil sydd â gwerth ymarferol i'r Bartneriaeth a gwaith cadwraeth ehangach yng Ngheredigion. Rhoddodd GC wybod bod y Bwrdd Rheoli Maethynnau wedi gwahodd cynrychiolaeth gan y Bartneriaeth Natur Leol. Yn hytrach na dibynnu ar un cynrychiolydd, cynigiwyd y dylai'r Bartneriaeth dynnu ar arbenigedd cyfunol ei haelodau, gyda mynychwyr yn cyfrannu at drafodaethau yn ôl meysydd eu gwybodaeth a'u profiad. Byddai'r dull hyblyg hwn o weithredu yn galluogi'r Bartneriaeth i roi mewnbwn gwybodus ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys ffermio, rheoli coetiroedd a bioamrywiaeth, a byddai ceisiadau am gymorth yn cael eu dosbarthu drwy gylchlythyr y Bartneriaeth yn ôl yr angen. Diweddariad ychwanegol gan TS Dywedodd TS wrth y mynychwyr, yn dilyn trafodaethau gyda Richard Lucas ym Mhrifysgol Aberystwyth, ei fod wedi dechrau archwilio rhaglen ymchwil arloesol sy'n defnyddio delweddau lloeren a thechnoleg synhwyro o bell i fonitro newid amgylcheddol ac asesu effeithiau hirdymor adfer cynefinoedd a rheoli tirwedd. Esboniodd TS fod y prosiect yn defnyddio delweddau lloeren hanesyddol a chyfoes i fodelu sut y gall gwahanol ymyriadau amgylcheddol ddylanwadu ar systemau afonydd a chynefinoedd cyfagos dros amser. Gan gyfeirio at enghreifftiau o Awstralia, disgrifiodd sut y defnyddiwyd y dechnoleg i asesu effeithiau posibl adfer coetiroedd glannau afonydd a phrosesau naturiol afonydd, gan alluogi ymchwilwyr i werthuso effeithiau tebygol ar liniaru llifogydd, ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau ehangach. Nododd fod delweddau mwyfwy aml a delweddau ag eglurder uwch bellach yn caniatáu monitro newid amgylcheddol bron mewn amser real, gan roi sylfaen dystiolaeth i ragweld canlyniadau mesurau adfer yn y dyfodol. Dywedodd TS fod y dull hwn o weithredu yn arbennig o berthnasol i brosiectau adfer natur ar raddfa tirwedd, lle mae'r amcan yn aml yw caniatáu i brosesau naturiol arwain adfer cynefinoedd gyda'r ymyrraeth leiaf posibl. Dywedodd fod gan y prosiect, a adwaenir fel Cymru Fyw, potensial sylweddol i gefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynllunio amgylcheddol, a'i fod yn gobeithio rhoi diweddariad manylach i'r Bartneriaeth wrth i'w ddealltwriaeth o'r prosiect ddatblygu. Tynnodd TS sylw hefyd at EarthTrack, platfform gwyddoniaeth dinasyddion cyflenwol sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i lanlwytho ffotograffau ac arsylwadau amgylcheddol. Er ei fod yn dal yn ei gamau cynnar, mae gan y platfform y potensial i gynhyrchu set ddata amgylcheddol sylweddol trwy gyfuno delweddau lloeren â gwybodaeth a gesglir gan gymunedau lleol.
--	--

	Yn ogystal, dywedodd TS ei fod yn ddiweddar wedi trafod mapio cymunedol a risg tanau gwyllt gydag ymchwylwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Arsylwodd fod cyfuno data synhwyro o bell ag arsylwadau a gasglwyd gan gymunedau lleol yn adlewyrchu'n agos yr egwyddorion sy'n sail i lawer o fentrau'r Bartneriaeth Natur Leol, gan gynnwys ffotograffiaeth pwynt sefydlog a phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion ehangach. Ystyriwyd bod dod ag arloesedd technolegol a gwybodaeth leol ynghyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella monitro amgylcheddol a chefnogi gwaith cadwraeth yn y dyfodol.	
Camau gweithredu		

7	DIWEDDARIADAU STAFF	
7.0	Cyflwynodd NB ei hun ac esboniodd ei fod wedi ymgymryd â rôl Swyddog Coed a Chloddiau yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ddiweddar. Amlinellodd ei gyfrifoldebau statudol, sy'n cynnwys gweinyddu a gorfodi Gorchmynion Diogelu Coed, diogelu coed o fewn Ardaloedd Cadwraeth a gorfodi Rheoliadau y Cloddiau. Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, dywedodd NB ei fod yn arwain y gwaith o sefydlu Rhwydwaith Wardeiniaid Coed Ceredigion newydd mewn partneriaeth â'r 'Tree Council'. Nod y fenter yw recriwtio Wardeiniaid Coed gwirfoddol o gymunedau ledled y sir i hyrwyddo coed, annog cyfranogiad cymunedol a chefnogi prosiectau lleol sy'n gysylltiedig â choed. Bydd cam cychwynnol y prosiect yn cynnwys gwahodd Cynghorau Cymuned i enwebu cynrychiolwyr, er y bydd aelodaeth hefyd ar agor i unigolion sydd â diddordeb.	
7.1	Eglurodd NB y bydd 'The Tree Council' yn rhoi hyfforddiant, cyngor a chyllid grant i gefnogi prosiectau lleol. Er bod plannu coed yn parhau i fod yn agwedd bwysig ar y fenter, pwysleisiodd fod angen mwy o bwyslais ar gynnal a chadw coed sydd newydd eu plannu yn yr hirdymor, gan fod llawer o gynlluniau plannu yn methu oherwydd diffyg ôl-ofal. Nododd y gallai'r rhwydwaith hefyd gefnogi gweithgareddau addysgol, prosiectau ymgysylltu â'r gymuned ac ystod eang o fentrau cadwraeth lleol. Bydd mwy o wybodaeth am Rwydwaith y Wardeiniaid Coed yn cael ei gylchredeg drwy gylchlythyr y Bartneriaeth.	
7.2	Eglurodd NB fod ei rôl o fewn y Bartneriaeth Natur Leol ar wahân i'w gyfrifoldebau cynllunio statudol. Esboniodd fod cloddiau wedi cael eu gwarchod o dan Reoliadau'r Cloddiau ers 1997 a bod angen hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cael gwared ar gloddiau gwarchodedig. Ei brif rôl statudol o hyd yw diogelu a rheoli coed a chloddiau trwy ddeddfwriaeth gynllunio. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd mynychwyr eu bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Ceredigion i nodi coed llwyfen aeddfed a allai fod yn haeddu eu gwarchod. Cadarnhaodd NB ei fod eisoes wedi bod mewn cysylltiad â phobl ynglŷn â chofnodion llwyfen posibl a chroesawodd y cynnig o	

7.3	wybodaeth ychwanegol. Gofynnodd am i fanylion am goed llwyfen hynafol posibl gael eu hanfon ymlaen ato ar ffurf taenlen i gynorthwyo gydag asesiadau yn y dyfodol. Esboniodd NB fod Gorchmynion Diogelu Coed wedi'u bwriadu'n bennaf i amddiffyn coed sy'n rhoi gwerth amwynder cyhoeddus sylweddol. Er bod gwerth bioamrywiaeth yn ystyriaeth bwysig, y prif faen prawf yw a yw coeden yn weladwy ac yn cyfrannu at y dirwedd gyhoeddus. Nododd ei bod yn annhebygol yn gyffredinol y bydd coed sydd wedi'u lleoli ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor yn cael eu diogelu gan Orchmynion Diogelu Coed, gan y byddai'r Cyngor yn rheoleiddio ei reolaeth tir ei hun i bob pwrpas. Fodd bynnag, efallai y bydd coed sy'n eiddo preifat ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig at y dirwedd gyhoeddus yn addas i'w dynodi. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurodd NB fod poblogaethau Llwyfen wedi bod mewn dirywiad hirdymor ers dyfodiad Clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd yn ystod y 1960au, gan wneud sbesimenau aeddfed sy'n goroesi yn gynyddol anghyffredin. Pwysleisiodd nad yw Gorchmynion Diogelu Coed wedi'u cyfyngu i rywogaethau penodol a gellir eu cymhwyso i unrhyw goeden sy'n bodloni'r meini prawf cynllunio perthnasol. Anogodd NB aelodau i barhau i gyflwyno ceisiadau am asesu coed ar gyfer Gorchmynion Diogelu Coed, gan esbonio y gall unrhyw unigolyn ofyn i goeden gael ei hystyried i'w gwarchod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol asesu pob cais yn erbyn y meini prawf cynllunio perthnasol. Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, ac anogwyd aelodau i gysylltu â NB yn uniongyrchol gydag unrhyw ymholiadau yn y dyfodol neu gofnodion coed posibl. Rhoddodd CH sy'n gyfrifol am Warchodfeydd Natur Lleol y Cyngor ddiweddariad ar weithgareddau rheoli ar draws nifer o warchodfeydd yng Ngheredigion. Mae sesiynau gwirfoddoli rheolaidd yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gynnal a chadw'r safleoedd, gan gynnwys rheoli cynefinoedd, rheoli rhywogaethau goresgynnol a gwaith cadwraeth ymarferol. Tynnwyd sylw at broblemau parhaus gyda thipio anghyfreithlon, sbwriel a gwersylla anawdurdodedig, gyda gwaith clirio rheolaidd yn parhau lle bo angen. Dywedodd CH fod gwaith gwirfoddol wedi'i wneud ym Mryn y Môr a Pharc Natur Penglais gyda chymorth gan Wirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth. Mae'r gwaith wedi cynnwys clirio prysgwydd, cynnal a chadw llwybrau a rheoli cynefinoedd, gyda diwrnodau gwirfoddoli pellach wedi'u cynllunio ar gyfer yr hydref a'r gaeaf. Mae rhywogaethau anfrodorol goresgynnol yn parhau i fod yn her rheoli sylweddol ar draws sawl gwarchodfa. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud i reoli Llusen yr Eira, Rhododendron a Chlymog Japan trwy gyfuniad o dynnu â llaw a thriniaeth chwynladdwr. Clywodd yr Aelodau y bydd angen rheolaeth hirdymor dros nifer o flynyddoedd i sicrhau rheolaeth effeithiol. Mae gofal arbennig hefyd yn cael ei gymryd i atal rhywogaethau goresgynnol rhag lledaenu i gynefinoedd sensitif. Mae arolygon moch daear wedi'u cynnal mewn sawl safle gwarchodfa mewn partneriaeth â'r Grŵp Moch Daear Lleol. Er na nodwyd dim
-----	---

	brochfeydd byw yn ystod un arolwg, cofnodwyd tystiolaeth o weithgarwch moch daear, gan gyfrannu at well dealltwriaeth o ddosbarthiad rhywogaethau ar draws rhwydwaith y warchodfa. Dywedodd CH fod byrddau dehongli newydd yn cael eu gosod mewn nifer o safleoedd i wella gwybodaeth i ymwelwyr ac annog ymddygiad cyfrifol, gan gynnwys negeseuon sy'n ymwneud â sbwriel, gwersylla a rheoli cŵn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella hygyrchedd a chyfleusterau ymwelwyr mewn sawl gwarchodfa trwy welliannau llwybrau a seilwaith newydd. Ym Mharc Natur Penglais, mae rheoli cynefinoedd wedi parhau ochr yn ochr ag arolygon ar gyfer ieir bach yr haf, moch daear a bywyd gwyllt arall. Clywodd yr aelodau fod y warchodfa yn cefnogi ystod amrywiol o rywogaethau ac y bydd monitro pellach yn parhau. Yng Ngheinewydd, mae'r gwaith adfer wedi parhau o fewn hen warchodfa gardd bwthyn, lle mae llystyfiant sydd wedi tyfu'n wyllt wedi'i glirio ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynyddu cyfranogiad y gymuned trwy blannu coed a chreu blodau gwyllt. Mae monitro blychau adar ac ystlumod hefyd wedi cadarnhau bod sawl un bellach yn cael eu defnyddio gan fywyd gwyllt. Daeth CH i ben trwy ddweud bod rheoli'r warchodfa yn parhau i ganolbwyntio ar gydbwysu adfer cynefinoedd, rheoli rhywogaethau goresgynnol, mynediad ymwelwyr ac ymgysylltu â'r gymuned, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei wneud yn bosibl trwy gymorth gwirfoddolwyr a sefydliadau partner. Rhoddodd FM y wybodaeth ddiweddaraf am nifer o brosiectau sy'n cael eu cyflawni drwy Fiosffer Dyfi a rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae gwaith diweddar wedi canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau rheoli coetir a dalgylchoedd cydweithredol ar gyfer tiffeddianwyr o fewn Aber Afon Dyfi, gan ddod â sefydliadau a thirfeddianwyr preifat ynghyd ar sail wirfoddol i wella rheoli coetiroedd ar draws y dirwedd. Soniodd FM hefyd am gymorth sy'n cael ei roi i waith rheoli maethynnau Cyngor Sir Ceredigion drwy ddatblygu prosiect monitro dŵr gwyddoniaeth dinasyddion. Nod y prosiect yw monitro ansawdd dŵr o fewn afonydd ac, ymhen amser, ymestyn i'r amgylchedd morol. Clywodd yr aelodau fod cryn ddiddordeb cyhoeddus mewn cymryd rhan, gan adlewyrchu pryder cynyddol am ansawdd dŵr afonydd a dŵr arfordirol. Bydd y prosiect hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r Ymddiriedolaeth Natur i archwilio'r defnydd o fonitro DNA amgylcheddol (eDNA) a thechnoleg camerâu tanddwr i wella dealltwriaeth o fioamrywiaeth forol. Mae gwaith pellach wedi cynnwys cefnogi myfyrwyr o Ganolfan y Dechnoleg Amgen i ddatblygu dyluniadau ar gyfer strwythurau sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt yn yr amgylchedd adeiledig. Bwriad y prosiect yw annog penseiri a dylunwyr y dyfodol i ymgorffori nodweddion bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd. Yn ystod trafodaeth, gofynnodd mynychwr a fyddai'r prosiect monitro dŵr yn mabwysiadu dull dalgylch cyfan o weithredu yn hytrach na chanolbwyntio ar
--	--

	ddangosyddion llygredd yn unig. Esboniodd FM, er bod y prosiect presennol o reidrwydd wedi'i gyfyngu gan y cyllid sydd ar gael, yr uchelgais hirdymor yw cyfrannu tuag at ddealltwriaeth ehangach o ddalgylchoedd afonydd trwy gyfuno monitro ansawdd dŵr â data amgylcheddol ehangach. Bydd gwybodaeth a gesglir drwy'r prosiect yn helpu i adeiladu gwell dealltwriaeth o ecosystemau afonydd ac ecosystemau morol a chefnogi penderfyniadau rheoli dalgylchoedd yn y dyfodol. Croesawodd yr Aelodau y diweddariad a mynegasant ddiddordeb mewn clywed canlyniadau'r gwaith monitro wrth i'r prosiect ddatblygu. Rhoddodd JR y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol. Diolchodd i'r holl bartneriaid am eu cyfraniadau parhaus i'r Bartneriaeth, gan dynnu sylw at y dull cydweithredol o weithredu sy'n sail i lawer o'i phrosiectau a chydabod y gwaith sylweddol a wnaed i drefnu cyfarfodydd, cynhyrchu cylchlythyrau, cydlynu digwyddiadau a chefnogi gweithgareddau dyddiol y Bartneriaeth. Soniodd JR am gwblhau Stori Wylt yn llwyddiannus, prosiect celfyddydau a bywyd gwyllt sy'n cynnwys pedair ysgol gynradd ledled Ceredigion. Daeth y prosiect i ben gydag arddangosfa yng Ngŵyl Natur Ceredigion ac fe'i disgrifiwyd fel enghraifft ardderchog o gyfuno addysg amgylcheddol, celfyddydau creadigol ac adnabod rhywogaethau i annog plant i ymgysylltu â natur. Mae'r prosiect wedi cynhyrchu nifer o syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd pellach i ehangu dysgu yn yr awyr agored. Gan ystyried gweithgarwch ehangach y Bartneriaeth, pwysleisiodd y mynychwyr bwysigrwydd cynyddol gwyddoniaeth dinasyddion wrth gefnogi monitro hirdymor a rheoli cynefinoedd. Nodasant fod llawer o sefydliadau a gwirfoddolwyr ledled y sir eisoes yn gwneud gwaith cadwraeth gwerthfawr, ac mai un o rolau allweddol y Bartneriaeth yw cysylltu'r gweithgareddau hyn, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo cydweithio. Rhoddwyd gwybod i'r mynychwyr fod gwaith yn parhau ar wefan Partneriaeth Natur Leol Ceredigion. Blaenoriaeth allweddol yw datblygu map rhyngweithiol sy'n arddangos prosiectau'r Bartneriaeth, safleoedd pwysig a sefydliadau partner ledled y sir. Bydd hyn yn helpu i godi proffil gwaith cadwraeth lleol, gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o brosiectau sy'n digwydd ac annog mwy o gyfranogiad gan gymunedau a gwirfoddolwyr. Amlinellodd JR gynnydd gyda phrosiect ffotograffiaeth pwynt sefydlog cod QR, a fydd yn galluogi ymwelwyr a gwirfoddolwyr i lanlwytho ffotograffau ailadroddus o leoliadau dynodedig. Bydd y prosiect yn cefnogi monitro hirdymor o newid cynefinoedd tra ar yr un pryd yn hyrwyddo gweithgareddau'r Bartneriaeth a rhoi cofnod ffotograffig gwerthfawr ar gyfer y wefan. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu adnoddau addysgol sy'n cyfuno adnabod rhywogaethau â'r Gymraeg. Gan ddefnyddio ffotograffau ac enwau rhywogaethau wedi'u cyfieithu, mae deunyddiau dysgu digidol yn cael eu creu i helpu ysgolion a grwpiau cymunedol i ddysgu enwau Cymraeg, Saesneg a gwyddonol ochr yn ochr ag adnabod bywyd gwyllt.
--	--

	Dywedodd JR eu bod yn ddiweddar wedi cwblhau blwyddyn gyntaf gradd Meistr rhan-amser mewn Cynllunio Cynaliadwy a Pholisi Amgylcheddol ym Mhrifysgol Caerdydd a'u bod bellach yn dechrau gweithio ar draethawd hir. Nodasant eu bod yn bwriadu datblygu ymchwil sydd â gwerth ymarferol i'r Bartneriaeth a gwaith cadwraeth ehangach yng Ngheredigion. Rhoddodd GC wybod bod y Bwrdd Rheoli Maethynnau wedi gwahodd cynrychiolaeth gan y Bartneriaeth Natur Leol. Yn hytrach na dibynnu ar un cynrychiolydd, cynigiwyd y dylai'r Bartneriaeth dynnu ar arbenigedd cyfunol ei haelodau, gyda mynychwyr yn cyfrannu at drafodaethau yn ôl meysydd eu gwybodaeth a'u profiad. Byddai'r dull hyblyg hwn o weithredu yn galluogi'r Bartneriaeth i roi mewnbyn gwybodus ar ystod eang o bynciau, gan gynnwys ffermio, rheoli coetiroedd a bioamrywiaeth, a byddai ceisiadau am gymorth yn cael eu dosbarthu drwy gylchlythyr y Bartneriaeth yn ôl yr angen. Diweddariad ychwanegol gan TS Dywedodd TS wrth y mynychwyr, yn dilyn trafodaethau gyda Richard Lucas ym Mhrifysgol Aberystwyth, ei fod wedi dechrau archwilio rhaglen ymchwil arloesol sy'n defnyddio delweddau lloeren a thechnoleg synhwyro o bell i fonitro newid amgylcheddol ac asesu effeithiau hirdymor adfer cynefinoedd a rheoli tirwedd. Esboniodd TS fod y prosiect yn defnyddio delweddau lloeren hanesyddol a chyfoes i fodelu sut y gall gwahanol ymyriadau amgylcheddol ddylanwadu ar systemau afonydd a chynefinoedd cyfagos dros amser. Gan gyfeirio at enghreifftiau o Awstralia, disgrifiodd sut y defnyddiwyd y dechnoleg i asesu effeithiau posibl adfer coetiroedd glannau afonydd a phrosesau naturiol afonydd, gan alluogi ymchwilwyr i werthuso effeithiau tebygol ar liniaru llifogydd, ansawdd dŵr ac iechyd ecosystemau ehangach. Nododd fod delweddau mwyfwy aml a delweddau ag eglurder uwch bellach yn caniatáu monitro newid amgylcheddol bron mewn amser real, gan roi sylfaen dystiolaeth i ragweld canlyniadau mesurau adfer yn y dyfodol. Dywedodd TS fod y dull hwn o weithredu yn arbennig o berthnasol i brosiectau adfer natur ar raddfa tirwedd, lle mae'r amcan yn aml yw caniatáu i brosesau naturiol arwain adfer cynefinoedd gyda'r ymyrraeth leiaf posibl. Dywedodd fod gan y prosiect, a adwaenir fel Cymru Fyw, potensial sylweddol i gefnogi gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynllunio amgylcheddol, a'i fod yn gobeithio rhoi diweddariad manylach i'r Bartneriaeth wrth i'w ddealltwriaeth o'r prosiect ddatblygu. Tynnodd TS sylw hefyd at EarthTrack, platfform gwyddoniaeth dinasyddion cyflenwol sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i lanlwytho ffotograffau ac arsylwadau amgylcheddol. Er ei fod yn dal yn ei gamau cynnar, mae gan y platfform y potensial i gynhyrchu set ddata amgylcheddol sylweddol trwy gyfuno delweddau lloeren â gwybodaeth a gesglir gan gymunedau lleol. Yn ogystal, dywedodd TS ei fod yn ddiweddar wedi trafod mapio cymunedol a risg tanau gwyllt gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth. Arsylwodd fod cyfuno data synhwyro o bell ag arsylwadau a gasglwyd gan gymunedau lleol yn adlewyrchu'n agos yr egwyddorion sy'n sail i lawer o fentrau'r Bartneriaeth Natur Leol, gan gynnwys ffotograffiaeth pwynt
--	--

	sefydlog a phrosiectau gwyddoniaeth dinasyddion ehangach. Ystyriwyd bod dod ag arloesedd technolegol a gwybodaeth leol ynghyd yn cynnig cyfleoedd sylweddol i wella monitro amgylcheddol a chefnogi gwaith cadwraeth yn y dyfodol.	
Cama u gweit hredu		

7	CYFLWYNIADAU
7.0	'Caring for God's Acre' Rhoddodd MM gyflwyniad ar brosiect Hafan 'Caring for God's Acre', menter a ariennir gan y Loteri Dreftadaeth Cymru gyfan sy'n gweithio gyda chladdfeydd o bob ffydd ac enwad i wella bioamrywiaeth, gwarchod henebion hanesyddol a chryfhau ymgysylltiad â'r gymuned. Mae'r prosiect yn ei gam datblygu ar hyn o bryd ac mae'n gweithio gyda thua 50 o gladdfeydd ledled Cymru i ddatblygu astudiaethau achos a threialu dulliau newydd o reoli ecolegol. Amlinellodd MM gyfleoedd gan gynnwys arolygon ecolegol, cynlluniau rheoli cynefinoedd, astudiaethau achos coed yw hynafol, samplu pridd DNA amgylcheddol (eDNA), cofnodi henebion ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Anogwyd y mynychwyr i nodi claddfeydd addas, coed yw hynafol a grwpiau cymunedol a allai gyfrannu at y prosiect a chefnogi'r gwaith o gyflawni yn y dyfodol ledled Cymru.
7.1	Trafodaeth:
7.2	Gofynnodd y mynychwyr ai hwn oedd y prosiect cyntaf 'Caring for God's Acre' i gael ei gyflwyno yng Nghymru. Esboniodd MM fod prosiect bioamrywiaeth cynharach wedi'i gynnal yng ngogledd-ddwyrain Cymru a bod y rhaglen bresennol yn adeiladu ar y gwaith hwnnw gyda'r bwriad o sefydlu prosiect tymor hwy ledled Cymru. Trafodwyd hefyd adnabod a rheoli coed yw hynafol, cydweithio â Rhwydweithiau Wardeiniaid Coed sy'n dod i'r amlwg, a chyfleoedd i rannu gwybodaeth am safleoedd addas a grwpiau gwirfoddol lleol. Gwnaed trefniadau hefyd ar gyfer ymweliad safle â mynwent Eglwys Llanrhystud yn dilyn y cyfarfod. Diweddariad Partneriaeth Natur Leol Ceredigion Cyflwyniad Rhoddodd JR drosolwg o'r gwaith presennol a'r gwaith sy'n dod i'r amlwg sy'n cael ei wneud drwy Bartneriaeth Natur Leol Ceredigion. Tynnodd y cyflwyniad sylw at bwysigrwydd cydweithio wrth ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, ynghyd â datblygu gwefan y Bartneriaeth

7.3	a fydd yn gwella cysylltedd rhwng sefydliadau, prosiectau a safleoedd trwy fapio rhyngweithiol. Disgrifiodd JR hefyd waith parhaus gydag ysgolion, artistiaid ac ecolegwyr i hyrwyddo addysg amgylcheddol ac ymgysylltu â'r gymuned, ochr yn ochr â chynigion ar gyfer menter Amaeth-goedwigaeth Menter Gymunedol a fyddai'n cyfuno creu cynefinoedd, rheoli tir cynaliadwy a dysgu yn yr awyr agored. Gwahoddwyd mynychwyr i ystyried cyfleoedd i gydweithio ac i nodi safleoedd addas a thirfeddianwyr sydd â diddordeb mewn cefnogi prosiectau arddangos yn y dyfodol. Trafodaeth: Gofynnodd mynychwyr am eglurhad ar ystyr amaeth-goedwigaeth o fewn y prosiect arfaethedig. Esboniodd JR fod hyn yn cynnwys integreiddio coed i systemau amaethyddol cynhyrchol i wella gwytnwch, bioamrywiaeth a rheoli tir. Ystyriodd trafodaeth bellach gyfleoedd grant Llywodraeth Cymru a Choedwig Genedlaethol Cymru, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer plannu coed dwysedd is, perllannau a choetir pori. Tynnodd y mynychwyr sylw hefyd at werth sefydlu safleoedd arddangos lle gallai ffermwyr a rheolwyr tir weld dulliau amaeth-goedwigaeth llwyddiannus yn ymarferol. Prosiect Afancod Cymru Cyflwyniad Rhoddodd ALD o Brosiect Afancod Cymru gyflwyniad yn amlinellu hanes ac amcanion y prosiect, sy'n cael ei arwain gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Crynhodd y cyflwyniad y dystiolaeth ecolegol sy'n cefnogi ailgyflwyno afancod fel rhywogaeth frodorol a disgrifiodd y gwaith parhaus i asesu safleoedd rhyddhau addas a phrosiectau rheoli caeëdig ledled Cymru. Rhoddwyd sylw arbennig i rôl afancod wrth adfer gwlyptiroedd, gwella ansawdd dŵr, cynyddu bioamrywiaeth a chyfrannu at reoli llifogydd naturiol a gwytnwch yr hinsawdd. Dangosodd enghreifftiau o brosiectau presennol sut y gall gweithgarwch afancod wella cynefinoedd, cadw dŵr o fewn dalgylchoedd a chefnogi adferiad ecosystemau ehangach. Trafodaeth Yn dilyn y cyflwyniad, trafododd mynychwyr reolaeth ymarferol afancod o fewn safleoedd caeëdig a'r gwahaniaeth rhwng prosiectau cadwraeth caeëdig ac ailgyflwyniadau gwyllt ehangach. Canolbwyntiodd y cwestiynau ar ymddygiad afancod, gofynion cynefinoedd a'r manteision amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgarwch, yn enwedig mewn perthynas â rheoli dŵr, adfer mawndiroedd ac addasu i'r hinsawdd. Cydnabyddodd y drafodaeth werth casglu tystiolaeth barhaus i fod yn sail i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch rôl afancod wrth adfer natur ledled Cymru.
Camau gweith redu	

